

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

6ed o Fai 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher yr 15fed o Fai am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

Derbyn adroddiad blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2023-24.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y 6ed o Fawrth 2024 – gweler yn atodol.

4. Materion yn codi,

a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Cwyn am 2 garafan static – Min y Goedwig, Aberangell – derbyn y diweddaraf

d) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

- e) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas.
- f) Cais am diffibrilator I Lanymawddwy
- f) Gwaith ym mynwent Dinas Mawddwy – cadarnhau cwblhau gwaith yno pwn dydd Mercher 24ain Ebrill.(hefyd anfoneb Dafydd Davies am £80 – cadarnhawyd drwy e-bost eieoes)
- g) Sefyllfa diweddaraf gyda'r Flexibus o Dinas I Machynlleth.

5.Ethol Swyddogion 2024-25.

- a) Cadeirydd
- b) Is- Gadeirydd

6. Telerau a chostau Clerc 2024-25

7. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2024/25.

8. Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannau wedi eu cwblhau gan Gyngorwyr. Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog, asesiad risg a'r cofrestr asedau (fydd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw neu ar ein gwefan) Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth (ar y wefan)

9. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol – Un Llais Cymru, Y Neuadd Bentref yn Dinas, Pwyllgor yr Hen Fynwent, Eco Dyfi ayyb. Ethol neu ail-ethol cynrychiolwyr o'r Cyngor.

10. Materion Cynllunio

Diwygio Amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) a 3 (Cladin pren allanol) ynglwm o ganiatad cynllunio NP5/74/482B 14/03/2023 – **Tir ger y Fynwent, Dinas Mawddwy**

11.Materion Cyllid.

- a) Cyflwyno cyfrifon 2023-24 sydd wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau.
- b)Nodi gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant a chadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2024-25. (I'w ddanfon allan ymlaenllaw)
- c) Nodi derbyn rhan gyntaf y praesept am 2024-25. Nodi balansau y cyfrifon, gyda chyfeiriad at gyllideb 2024-25.
- d) Anfoneb Glyn Rees a'I Fab am ail-agor bedd I'r diweddar Margaret Gwyneth Williams.

e) Cadarnhau aelodaeth Un Llais Cymru am 2024-25 - £150.

f) Cais am arian – Clwb Rygbi Machynlleth

12. Gohebiaeth

a) E bost y Commonwealth War Graves Commission – a cadarnhad o daliad.

b) E bost Cyngor Tref Nefyn – ynglyn a ceir trydan

c) Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru - *danfonwyd eisoes I'r Cynghorwyr*

d) Ymgynghoraid y Parc Cenedlaethol ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl

13. Unrhyw fater arall